Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
Dydd Mawrth, 4 Mawrth 2014

Amser y cyfarfod:
13.30

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Agenda
(183)v3

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)

Gweld y Cwestiynau

3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

4 Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cynyddu'r Cyflenwad Tai (30 munud)

Dogfennau Ategol
Cyflenwi Rhagor o Dai i Gymru – Adroddiad y Tasglu ar y Cyflenwad Tai
Y Bil Cynllunio (Cymru) drafft a Cynllunio cadarnhaol: Cynigion i ddiwygio'r system

gynllunio yng Nghymru
Tan 23 Datblygu Economaidd

5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi: Cyflawni Rhaglen y Llywodraeth - Y wybodaeth ddiweddaraf am Ehangu Dechrau'n Deg (30 munud)

Dogfennau Ategol
Ipsos Mori – Ymchwil ansoddol Dechrau'n Deg gyda theuluoedd sydd ag anghenion uchel (Saesneg yn unig)
Dechrau'n Deg, Ystadegau Cryno 2012-13 – Diwygiedig (Saesneg yn unig)

6 Dadl: Adroddiad Blynyddol Estyn 2012-13 (60 munud)
NDM5442 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2012-13.

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ionawr 2014 ac mae ar gael drwy'r linc a ganlyn: http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=253343&ds=2/2014

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw safonau addysg yng Nghymru wedi gwella, ar y cyfan, a bod:

a) y gyfran o ysgolion uwchradd sydd wedi cael eu brandio yn 'anfoddhaol' wedi cynyddu o 14% i 23%;

b) ysgolion rhagorol yn parhau i fod yn lleiafrif bychan; ac

c) bod angen cynnal arolygiadau dilynol ar ddwy ran o dair o ysgolion uwchradd, a hanner yr ysgolion cynradd.

Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i hybu morâl athrawon yn ysgolion Cymru.

Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu argymhelliad Estyn y dylai mynd i'r afael ag effeithiau tlodi fod yn ganolog i gynllunio ysgol-gyfan a bod yn rhaid i'r holl staff ddeall y rôl sydd ganddynt i'w chwarae, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i wreiddio ymwybyddiaeth o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ymhlith holl aelodau staff ysgolion i sicrhau y caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol i liniaru ar effaith tlodi mewn ysgolion.

Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at ganfyddiadau Estyn nad yw 'ysgolion prif ffrwd bob amser yn darparu gwybodaeth o ansawdd da na gwybodaeth amserol i'r UCDau am anghenion dysgu disgyblion' ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau monitro mwy unigoledig er mwyn cael 'darlun clir o alluoedd, anghenion a chynnydd blaenorol disgyblion'.

Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at ganfyddiad Estyn bod 'Llai na hanner ysgolion uwchradd yn dda neu'n well, ac mae'r gyfran sy'n anfoddhaol wedi cynyddu o un o bob saith ysgol i un o bob

pedair'.

Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu mai arweinwyr ac athrawon rhagorol yw'r allwedd i godi safonau mewn ysgolion.

Gwelliant 7 - Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod safonau yn cael eu codi mewn modd mwy cynaliadwy pan fydd ysgolion yn cydweithio yn hytrach na chystadlu.

7 Dadl: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (60 munud)
NDM5443 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2014 i nodi rôl menywod ym mywyd economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod llwyddiannau menywod o Gymru ym myd y campau a'r ffordd y maent yn fodelau rôl cadarnhaol i fenywod a dynion ifanc.

Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi adroddiad ‘Lle’r Fenyw' gan Chwarae Teg a oedd yn dangos bod y mwyafrif o gyflogwyr yn meddwl y byddai gweithredu pellach gan y llywodraeth, a chymorth gyda gofal plant yn benodol, yn helpu i sicrhau cydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn y gweithle ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu’r camau y bydd yn eu cymryd i ehangu darpariaeth gofal plant fforddiadwy o ansawdd yng Nghymru.

Mae'r adroddiad 'Lle'r Fenyw' ar gael yn http://cymraeg.chwaraeteg.com/a-womans-place/

Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 5 Mawrth 2014